# PWYLLGOR CRAFFU DYSGU A DIWYLLIANT

Cofnodion cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 18 Mawrth, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd R.R. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd H.M. Payne (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, W. Gilligan, R.E. Godfrey, E.J. Goodjohn, W.A. Hennessy, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson, J.M. Norman ac E. Penn.

Aelodau Cyfetholedig: R. Morteo (Yr Eglwys yng Nghymru), M. Price (Eglwys Gatholig Rufeinig), L. Barrowclough (Rhiant Lywodraethwr – Sector Cynradd), G. van der Burgt (Rhiant Lywodraethwr – Sector Uwchradd), R. Goodjohn (Fforwm Ieuenctid y Fro); J. Clemett a T. Williams (Cyngor Ieuenctid y Fro).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr J. Aviet, R.M. Birch (Aelod Cabinet dros Addysg, y Celfyddydau a'r Iaith Gymraeg), L. Burnett (Arweinydd Gweithredol ac Aelod Cabinet dros Berfformiad ac Adnoddau), C.P. Franks, Dr. I.J. Johnson, N.C. Thomas ac E. Williams (Aelod Cabinet dros Ofal Cymdeithasol ac Iechyd).

944 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

945 YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd N.B. Marshallsea.

946 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd R.R. Thomas fuddiant personol ond nid oedd yn rhagfarnu yn Eitem 9 ar yr Agenda – Adroddiad Blynyddol CYSAG / CYS 2022-2023 (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol) / CYS (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog). Natur y buddiant personol oedd ei fod yn aelod o CYSAG wedi ei benodi gan yr Awdurdod Lleol a throsolwg blynyddol oedd yr adroddiad.

Datganodd y Cynghorydd E.J. Goodjohn fuddiant personol ond nid buddiant sy'n rhagfarnu yn Eitem 9 ar yr Agenda – Adroddiad Blynyddol CYSAG / CYS 2022-2023 (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog Addysg Grefyddol) / CYS (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog). Natur y buddiant personol oedd bod aelod o'r teulu wedi'i benodi i CYSAG gan yr Awdurdod Lleol ac roedd yr adroddiad yn drosolwg blynyddol.

R. Goodjohn, fuddiant personol ond nad oedd yn rhagfarnu yn Eitem 9 ar yr Agenda - Adroddiad Blynyddol CYSAG / CYS 2022-2023 (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol) / CYS (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog). Natur y buddiant personol oedd bod aelod o'r teulu wedi'i benodi i CYSAG gan yr Awdurdod Lleol ac roedd yr adroddiad yn drosolwg blynyddol.

947 DIWEDDARIAD CWRICWLWM I GYMRU –

Rhannodd cynrychiolwyr Consortiwm Canolbarth y De (CCD) gyflwyniad PowerPoint ar Gymorth ar gyfer Llythrennedd, Ieithoedd a Chyfathrebu mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg ym Mro Morgannwg gan dynnu sylw at yr agweddau amrywiol ar y gwaith a manylu hefyd ar y gyd-ddealltwriaeth o gynnydd mewn sgiliau llythrennedd yng nghlwstwr Bro Morgannwg. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor hefyd y byddai'r clwstwr hefyd yn derbyn cymorth gan CCD i wella safonau llythrennedd dysgwyr yn ystod y tymor nesaf mewn perthynas â sgiliau darllen Cymraeg a sgiliau ysgrifennu Cymraeg, er mwyn parhau i hwyluso cydweithio rhwng ysgolion, sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth o gynnydd o ran datblygu llythrennedd, ieithoedd a sgiliau cyfathrebu a darparu dysgu proffesiynol ar wella safonau ysgrifennu ym mhob un o'r ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Rhannwyd cyflwyniad fideo byr a ddatblygwyd gan Ysgol y Wig a Marcroes mewn perthynas â dysgu Cymraeg gyda'r Pwyllgor hefyd.

Dywedodd Crays Pritchard, y Prif Gynllunydd Gwella ar gyfer CCD, fod Gweithio mewn Partneriaeth a Gweithio ar y Cyd yn sylfaenol bwysig i waith CCD gyda'r fideo a'r cyflwyniad yn nodi sut roedd y rhain yn datblygu.

Gofynnodd y Cynghorydd Asbrey, wrth gyfeirio at y cyfeiriad at y cymorth pwrpasol sydd ar gael, am fwy o wybodaeth am yr hyn y byddai hyn yn ei olygu. Mewn ymateb dywedodd y Prif Gynllunydd Gwella y byddai CCD yn datblygu model ar gyfer pob ysgol unigol ar gais a fyddai'n bodloni anghenion yr ysgol benodol.

Dywedodd y Cynghorydd Hodges ei fod yn croesawu'r holl gynnydd a'r cyfleoedd sy'n cael eu rhoi i ennill rhuglder, ond ei bryder oedd y gwahanol ddulliau addysgu ar gyfer datblygu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg mewn cyferbyniad ag ysgolion cyfrwng Cymraeg, a gofynnodd hefyd pa mor bell y gallai disgyblion mewn ysgolion cyfrwng Saesneg ddatblygu eu Cymraeg. Dywedodd Mathias Maurer (Ymgynghorydd Cyswllt ar gyfer Cymraeg mewn Ysgolion Cyfrwng Cymraeg a Chyfrwng Saesneg) fod hyn yn broblem ac roedd y diffiniad o ruglder yn anodd ei bennu. Fodd bynnag, roedd yn bwysig bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn iaith fyw yr oedd disgyblion yn hyderus yn ei defnyddio. Dywedodd Mr Maurer, a oedd wedi dysgu Cymraeg ei hun, ymhellach, ei fod wedi bod yn gweithio gydag ysgolion cyfrwng Saesneg ar sut i integreiddio Cymraeg mewn ysgolion gan nodi bod y rhaglen newydd wedi ei chyhoeddi yn nhymor yr haf i geisio mynd i'r afael â phryderon o'r fath. Dywedodd ei bod yn bwysig bod cyfleoedd ymarferol yn bodoli ond cydnabu y byddai'n cymryd amser i ymwreiddio hyn, er y gallai ddweud wrth yr Aelodau fod yr adborth hyd yma wedi bod yn ardderchog.

Gyda golwg ar y wybodaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor, fe'i gwnaed wedyn

ARGYMHELLWYD – Y DYLID diolch i holl gynrychiolwyr Consortiwm Canolbarth y De am eu cyflwyniad a bod y gwaith da a amlinellwyd yn parhau i gael ei symud ymlaen.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys y cyflwyniad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

948 CONSORTIWM CANOLBARTH Y DE: ADRODDIAD CRAFFU BLYNYDDOL AWDURDODAU LLEOL 2022-23 (CDS) –

Cyflwynodd Prif Bartner Gwella CCD yr adroddiad, gan roi gwybod mai ei ddiben oedd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith CCD a'i gyfraniad at wella ysgolion ym Mro Morgannwg.

Roedd Atodiad A yr adroddiad yn rhoi trosolwg o waith CCD ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am gyfraniadau CCD a'r gwaith sy'n cael ei wneud mewn partneriaeth â'r Awdurdod Lleol (ALl) i wella safonau mewn ysgolion ledled Bro Morgannwg.  Roedd gwaith CCD, meddai'r swyddog, yn chwarae rhan hanfodol wrth gyflawni cyfrifoldebau statudol y Cyngor mewn perthynas ag ysgolion.  Ers 2012 mae CCD wedi darparu agweddau ar wasanaethau gwella ysgolion ar ran y pum awdurdod: Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd, Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Bro Morgannwg.  Roedd yr adroddiad yn manylu ar waith y Consortiwm ar gyfer y flwyddyn academaidd rhwng mis Medi 2022 a mis Medi 2023 a'r flwyddyn ariannol rhwng mis Ebrill 2022 a mis Ebrill 2023.

Yn ystod y cyfarfod cyfeiriwyd at saith ysgol yn y Fro a oedd wedi derbyn monitro uwch, a nodwyd bod dau allan o'r saith bellach wedi symud yn ôl i gymorth craidd ar ddiwedd y flwyddyn academaidd ddiwethaf.

Yn dilyn hynny, cydnabu'r Cynghorydd Hodges fod yr adroddiad yn drosolwg o waith CCD a'i fod yn dod â phob agwedd at ei gilydd mewn un lle.  Yna gofynnodd y Cadeirydd am wybodaeth gan y rhai a oedd yn cyflwyno'r adroddiad, ynghylch manteision gwasanaethau'n cael eu darparu i ysgolion gan CCD, yn hytrach na'r Awdurdod Lleol ei hun.  Mewn ymateb, nodwyd bod CCD, drwy rannu profiad, ac ymdrechion y Partneriaid Gwella wrth gydweithio, yn gallu darparu rhaglen ddysgu gynhwysfawr, a chymorth pwrpasol lle bo angen.  Nodwyd bod eu harbedion maint yn cynorthwyo gwaith y Consortiwm gydag Awdurdodau Lleol ac unwaith eto, dywedodd y Prif Gynllunydd Gwella ar gyfer y Cwricwlwm mai CCD oedd yr unig ranbarth yng Nghymru a allai gefnogi pob maes oherwydd ei arbedion maint.

Wrth gyfeirio at yr adroddiad a'r cyfeiriadau ar dudalennau 7 ac 8 yn ymwneud ag Ysgol Uwchradd Pencoedtre, gofynnodd y Cynghorydd Payne am y wybodaeth ddiweddaraf am gais blaenorol y Pwyllgor i ymweld â'r ysgol. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n ceisio trefnu ymweliad safle i'w gynnal ar ôl gwyliau ysgol y Pasg, a dywedodd y Prif Bartner Gwella hefyd y byddai canlyniadau Estyn a chynnydd

ysgolion yn cael eu hadrodd i’r Pwyllgor Craffu ym mis Ebrill. Dywedwyd wrth y Pwyllgor hefyd fod pennaeth gweithredol newydd wedi'i benodi ar gyfer yr ysgol ac mai prif ffocws yr ysgol nawr oedd ystyried y Cynllun Gweithredu Ôl-arolwg a gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu yn yr ysgol yn ogystal â chyfleoedd a nodwyd i rannu a datblygu arfer da.

Wedi ystyried yr adroddiad, yr oedd wedi hynny

ARGYMHELLWYD – Y DYLID diolch i Gonsortiwm Canolbarth y De am adroddiad manwl a nodi’r adroddiad sydd ynghlwm yn Atodiad A i’r adroddiad sy’n amlinellu gwaith y Consortiwm.

Rheswm dros yr argymhelliad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a’r trafodaethau yn y cyfarfod

949 MONITRO REFENIW CHWARTER 3 2023/24 (CDS) –

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Swyddog Cyllid mai diben yr adroddiad oedd i'r Pwyllgor ystyried sefyllfa monitro refeniw Chwarter 3 ar gyfer 2023/24. Parhaodd y sefyllfa refeniw ar gyfer 2023/24 i adlewyrchu’r galw heriol a’r pwysau chwyddiant, gyda galw cynyddol mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol Plant ac Oedolion ac roedd cynnydd sylweddol yng nghost lleoliadau a phecynnau gofal a chymorth ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yn parhau’n faes dan bwysau mawr o fewn Dysgu a Sgiliau. Roedd y Cyngor hefyd yn profi pwysau chwyddiant parhaus mewn perthynas â Thrafnidiaeth Ysgol. Ar draws gwasanaethau roedd pwysau chwyddiant hefyd yn cael eu profi mewn perthynas â chyflogau, yn fwyaf nodedig lle'r oedd grymoedd y farchnad yn cael eu defnyddio ac o ran y bwlch ariannu rhwng y dyfarniad cyflog ar gyfer 2023/24 a'r dyfarniad cyflog cyfradd safonol ar gyfer 2023/24.

Nododd yr adroddiad fod y Cyngor wedi nodi nifer o gamau i'w cymryd yn ystod y flwyddyn i helpu i liniaru'r gorwariant hwn sy'n dod i'r amlwg a diogelu cronfeydd wrth gefn, roedd hyn yn cynnwys rheolaethau llymach ar wariant a recriwtio ac adolygiad o'r Rhaglen Gyfalaf. Roedd y Gyfarwyddiaeth Adnoddau Corfforaethol wedi nodi tanwariant posib o £285k i'w wrthbwyso yn erbyn gorwariant sy'n dod i'r amlwg ac roedd tanwariant rhagamcanol o £1m yn erbyn incwm y Dreth Gyngor oherwydd y casgliad a ragwelir o ôl-ddyledion, eiddo newydd, newidiadau mewn lwfansau a phremiymau ar gartrefi gwag yn ogystal â gwarged ar incwm buddsoddi a chostau benthyca.

Roedd targedau arbedion ac effeithlonrwydd heriol wedi'u pennu ar gyfer 2023/24 ac roedd hyn yn cynnwys targed o £2.75m ar gyfer ysgolion a £4.628m o arbedion Corfforaethol. Adlewyrchwyd y cynnydd yn erbyn y targedau arbedion hyn yn Atodiad yr adroddiad.

Nodwyd bod 22 o ysgolion wedi cyflwyno cyllideb ddiffyg gyda 19 o'r rheiny yn gyllidebau na ellir eu hadfer a chyfeiriodd y Cynghorydd Hodges at ei bryderon mewn perthynas â'r ffaith nad oes modd osgoi dileu swyddi yn ei farn ef a gofynnodd

am fwy o wybodaeth am y ffigurau ar gyfer dileu swyddi er gwybodaeth i'r Aelodau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau fod y ffigurau dileu swyddi ar gyfer y flwyddyn flaenorol wedi dod i gyfanswm o 31, gyda gofyniad gorfodol i ddileu dim ond un o'r swyddi hyn. Nid oedd unrhyw ffigurau ar gyfer 2024/25 ar gael eto a chyn gynted ag y byddai'r wybodaeth ar gael, byddai'n cael ei hanfon ymlaen at yr Aelodau.

Yr oedd wedi hyny

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r sefyllfa o ran Cyllideb Refeniw 2023/24 yr Awdurdod.

(2) NODI'r Trosglwyddiadau Cyllidebol ar gyfer 2023/24 a gyflwynwyd yn yr adroddiad.

<u>Rheswm dros yr argymhellion</u>

(1&2) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

950 MONITRO CYFALAF AR GYFER Y CYFNOD 1 EBRILL I 31 RHAGFYR 2023 (CDS) –

Diben yr adroddiad oedd rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd ar Raglen Gyfalaf 2023/24 ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2023 o fewn ei gylch gwaith. Dangoswyd y manylion fesul cynllun yn Atodiad 1 yr adroddiad. Rhoddodd Atodiad 2 yr adroddiad grynodeb o sefyllfa'r Rhaglen Gyfalaf fesul Cyfarwyddiaeth a nododd yr adroddiad hefyd unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt i Raglen Gyfalaf 2023/24 a Rhaglenni Cyfalaf y dyfodol.

Nododd yr adroddiad y Rhaglen gymeradwy gyfredol o £103.677m, a nodwyd ei bod yn annhebygol y byddai hyn yn cael ei gyflawni gyda gofyniad am lithriad o £7.692m ac alldro a ragwelir o £96.763m. Byddai'r cynlluniau'n cael eu monitro'n agos dros y misoedd nesaf gyda'r swyddogion yn parhau i weithio gyda noddwyr a rheolwyr prosiectau i sicrhau gwerth am arian a bod yr holl gyfleoedd ariannu posib yn cael eu nodi a'u hystyried yn llawn.

Dywedodd y Swyddog Cyllid wrth y Cadeirydd, a oedd yn gofyn am y cynnydd mewn perthynas â'r £300k wedi'i glustnodi ar gyfer y ganolfan ym Mhencoedtre a adroddwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor, fod angen llunio astudiaethau dichonoldeb gyda gwybodaeth bellach i'w rhoi i'r Pwyllgor maes o law.

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI'r cynnydd a wnaed ar gyflawni Rhaglen Gyfalaf 2023/24 o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor fel y'i cynhwysir yn Atodiad 1 sydd ynghlwm wrth yr adroddiad.

(2) NODI'r defnydd o Bwerau Argyfwng o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, y manylwyd arnynt yn Atodiad 1 i'r adroddiad.

(3) Y DYLID nodi'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2023/24 a Rhaglen Gyfalaf y dyfodol o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor, a grynhoir ym mharagraffau 2.3 i 2.6 ac y manylwyd arnynt yng nghorff yr adroddiad o baragraff 2.14.
Rheswm dros yr argymhellion

(1-3) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod

951 CYNLLUNIAU GWASANAETH A THARGEDAU PERFFORMIAD I GYFLAWNI CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL CYNGOR BRO MORGANNWG 2024/2025 (CDS) –

Dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau, wrth gyflwyno'r adroddiad, y gofynnwyd am gymeradwyaeth yr Aelodau mewn perthynas â'r camau blaenoriaeth fel yr adlewyrchir yn y Cynlluniau Gwasanaeth a thargedau perfformiad gwasanaeth arfaethedig ar gyfer y cyfnod 2024/2025 a fyddai'n cyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.

Cyflwynodd yr adroddiad y gweithgareddau gwasanaeth arfaethedig (fel yr amlinellir mewn Cynlluniau Gwasanaeth) a'r targedau perfformiad cysylltiedig o fewn cylch gwaith y Pwyllgor Craffu hwn. Dyma oedd meysydd ffocws penodol y Pwyllgor a oedd yn gysylltiedig â chyflawni Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2024/2025 fel sy'n cyd-fynd â phedwar Amcan Lles y Cynllun Corfforaethol (atodwyd yn Atodiadau A a B yr adroddiad).

Byddai datblygu'r Cynllun Cyflawni Blynyddol yn helpu i gyflawni rhwymedigaethau statudol dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Roedd y ddau ddarn o ddeddfwriaeth yn gosod dyletswyddau penodol ar y Cyngor mewn perthynas ag adolygu a phennu amcanion, adolygu perfformiad ac adrodd ar berfformiad, gan ganolbwyntio ar wella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol dinasyddion Bro Morgannwg.

Yn unol â dyletswyddau statudol, roedd perthnasedd yr Amcanion Lles yn cael ei adolygu'n barhaus. O ganlyniad, wrth symud ymlaen i 2024/2025, sicrhawyd bod Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol a'r ymrwymiadau cysylltiedig a amlinellir yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2024/2025 (a gynhwysir ym mhapurau cefndir yr adroddiad) yn rhai perthnasol wrth gyflawni gwell canlyniadau i ddinasyddion Bro Morgannwg a chyfrannu at y Nodau Lles cenedlaethol.

Roedd pob Pwyllgor Craffu wedi ystyried Cynllun Cyflawni Blynyddol drafft ym mis Rhagfyr 2023 ac roedd ei farn, ochr yn ochr â barn rhanddeiliaid allweddol eraill, wedi llywio'r Cynllun terfynol, a gymeradwywyd gan y Cabinet ar 22 Chwefror 2024 a'r Cyngor Llawn ar 6 Mawrth 2024.

Adlewyrchwyd yr ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 mewn 16 o Gynlluniau Gwasanaeth a roddwyd er gwybodaeth ym mhapurau cefndir yr adroddiad. Dangosodd y Cynlluniau hynny sut y byddai gwasanaethau unigol yn cyfrannu at y gwaith o gyflawni'r pedwar Amcan Lles yn gyffredinol a sut y byddai

adnoddau'n cael eu defnyddio i wneud hynny.  Yn unol â'r Calendr Perfformiad Blynyddol, dywedodd yr adroddiad fod yr Aelodau wedi parhau i helpu i lunio'r ffordd yr oedd gweithgarwch ac adroddiadau cysylltiedig â pherfformiad yn cael eu cyflwyno i'w cefnogi yn eu rôl her cyfaill beirniadol.  Roedd adborth o'r gweithdy diweddar (yn ymwneud â'r cyflwyniad pwyllgor-benodol o weithgareddau Cynllun Gwasanaeth a thargedau perfformiad) ym mis Chwefror 2024, wedi'i adlewyrchu yn y dull o ymdrin ag adroddiadau eleni.

Gofynnwyd i Aelodau'r Pwyllgor Craffu adolygu'r cyfraniadau gan wasanaethau (drwy weithgareddau wedi'u cynllunio a mesurau perfformiad arfaethedig a thargedau cysylltiedig) fel sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor hwn a fyddai'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer y cyfnod 2024/25 a nodir yn Atodiadau A a B yr adroddiad.

Ar ôl adolygu, gofynnwyd i'r Aelodau argymell i'r Cabinet y gweithgareddau wedi'u cynllunio a'r targedau perfformiad gwasanaeth cysylltiedig fel sy'n berthnasol i gylch gwaith y Pwyllgor fel y prif ddull o fonitro, mesur ac adrodd perfformiad bob chwarter ar gyfer Cynllun Cyflawni Blynyddol 2024/25 fel y nodir yn Atodiadau A a B yr adroddiad.

Wrth ystyried yr adroddiad gofynnodd y Cynghorydd Goodjohn am y manylion mewn perthynas â Chynllun Cyflawni Blynyddol 19 a dywedodd Pennaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Lles fod hyn yn ymddangos fel camgymeriad clercaidd ac y byddai'r wybodaeth angenrheidiol yn cael ei hychwanegu a'i hanfon at Aelodau'r Pwyllgor a'r Cabinet er gwybodaeth.  O ran Cynllun Cyflawni Blynyddol 18 ac 20, unwaith eto yn dilyn cais am fwy o wybodaeth, dywedodd y swyddog y byddai'r Pwyllgor yn derbyn y manylion wrth ystyried cynnydd y Cynllun Gwasanaeth yn ystod y flwyddyn.

Roedd y Cynghorydd Hodges o'r farn, wrth gydnabod bod y sefyllfa yn ei dyddiau cynnar ac nad oedd llawer o wybodaeth ar gael eto, fod agweddau amrywiol ar y ddogfen a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor hwn, er eu bod yn gysylltiedig â Phwyllgorau Craffu eraill, yn enwedig creu lleoedd a'i hagweddau diwylliannol, gan awgrymu bod y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant yn ystyried gwybodaeth o'r fath yn y dyfodol.  Gofynnodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr sicrhau bod gwybodaeth o'r fath ar gael i'r Pwyllgor Craffu wrth symud ymlaen a chytunodd y Cyfarwyddwr i ystyried y cais.

Gofynnodd y Cynghorydd Payne, wrth gyfeirio at Gynllun Cyflawni Blynyddol 21 – trafnidiaeth gynaliadwy, am y wybodaeth ddiweddaraf am sut roedd cynnydd yn cael ei wneud o ran hyrwyddo teithio llesol o amgylch ysgolion a'r atebion posibl a oedd yn cael eu hystyried oherwydd swm y ceir yn cael eu defnyddio i hebrwng plant i'r ysgol a'r ffaith bod hyn yn fater diogelu.  Dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau y byddai'n anfon yr ymholiad i'r Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdogaeth i gael gwybod pa wybodaeth y gellid ei dwyn yn ôl i'r Pwyllgor fel diweddariad ar y gwaith a oedd yn cael ei wneud ar hyn o bryd mewn perthynas â materion o'r fath.

Gyda golwg ar y trafodaethau yn y cyfarfod, fe gafwyd wedyn

ARGYMHELLWYD –

(1) CYMERADWYO'r gweithgareddau gwasanaeth arfaethedig ar gyfer 2024/25, sy'n ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor ac a nodir yn Atodiad A i'r adroddiad.

(2) CYMERADWYO'r mesurau arfaethedig a'r targedau perfformiad gwasanaeth ar gyfer 2024/2025, sy'n ymwneud â chylch gorchwyl y Pwyllgor ac a nodir yn Atodiad B i'r adroddiad.

(3) BOD y Cabinet yn cael ei hysbysu wrth symud ymlaen o geisiadau'r Pwyllgor Craffu i dderbyn gwybodaeth i'w hystyried, fel yr amlinellwyd uchod, yn ymwneud ag agweddau diwylliannol ac opsiynau teithio cynaliadwy sy'n cael eu hystyried mewn perthynas ag ysgolion.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Gan ystyried cynnwys yr adroddiad, sicrhau bod y gweithgareddau a gynllunnir sy'n cyd-fynd â chylch gorchwyl y Pwyllgor yn gywir, yn gyfredol ac yn berthnasol ac yn dod yn brif ddogfen ar gyfer monitro perfformiad yn erbyn Cynllun Cyflawni Blynyddol y Cynllun Corfforaethol a'i fesur yn ystod. 2024/2025.

(2) Sicrhau bod Fframwaith Mesur Perfformiad Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn nodi set berthnasol o fesurau perfformiad a thargedau y gellir monitro a mesur y Cynllun Cyflawni Blynyddol yn eu herbyn yn ystod 2024/2025.

(3) Hysbysu'r Cabinet am gais y Pwyllgor i wybodaeth o'r fath gael ei chyflwyno i'w hystyried.

952 ADRODDIAD MONITRO CYNLLUN CYFLAWNI BLYNYDDOL: PERFFORMIAD CHWARTER 3 2023/24 (CDS) –

Cyflwynwyd yr adroddiad a'i ddiben oedd rhoi gwybod am ganlyniadau perfformiad Chwarter 3 (Ch3) ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Rhagfyr 2023 wrth gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/2024 fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol. Cyflwynodd yr adroddiad perfformiad hefyd gynnydd yn Ch3 (1 Ebrill i 31 Rhagfyr 2023) tuag at gyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol (2023/24) fel sy'n cyd-fynd ag Amcanion Lles y Cynllun Corfforaethol.

Oherwydd yr heriau capasiti cyfredol o fewn y Tîm Perfformiad Corfforaethol, roedd fformat Adroddiad Monitro'r Cynllun Cyflawni Blynyddol ar gyfer Ch3 wedi'i ddiwygio dros dro, i alluogi parhau i roi trosolwg i Aelodau Etholedig o'r cynnydd o ran cyflawni ymrwymiadau'r Cynllun Cyflawni Blynyddol fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith pob Pwyllgor Craffu.

Rhoddodd y cyflwyniad wedi'i atodi yn Atodiad A yr adroddiad grynodeb o'r cynnydd yn erbyn ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 fel sy'n cyd-fynd â chylch gwaith y Pwyllgor Craffu Dysgu a Diwylliant.

Gofynnodd y Cynghorydd Payne am yr ystadegau sydd ar gael ar y defnydd o lyfrgelloedd, mentrau sy'n cael eu cynnal ym mhob llyfrgell, ac a oeddent yn wahanol, a gofynnodd i adroddiad yn y dyfodol mewn perthynas â'r gwasanaethau a ddarperir gan lyfrgelloedd gael ei gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor yn y dyfodol a bod hyn yn cael ei ychwanegu at raglen waith y Pwyllgor.

Yr oedd wedi hyny

ARGYMHELLWYD –

(1) NODI canlyniadau perfformiad Chwarter 3 a'r cynnydd tuag at gyflawni ymrwymiadau Cynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24, sy'n cyd-fynd ag Amcanion Llesiant Cynllun Corfforaethol y Cyngor o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(2) Y DYLID nodi'r camau adferol sydd i'w cymryd i fynd i'r afael â meysydd o danberfformio ac i fynd i'r afael â'r heriau allweddol a nodwyd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor.

(3) BOD adroddiad yn y dyfodol ar y defnydd o lyfrgelloedd a mentrau sy'n cael eu cynnal mewn llyfrgelloedd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Pwyllgor yn y dyfodol ac ychwanegu'r cais hwn at Raglen Gwaith Cychwynnol y Pwyllgor.

<u>Rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Gan roi sylw i gynnwys yr adroddiad, sicrhau bod y Cyngor yn dangos yn glir y cynnydd sy'n cael ei wneud tuag at gyflawni ei ymrwymiadau yng Nghynllun Cyflawni Blynyddol 2023/24 sydd â'r nod o wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau dinasyddion Bro Morgannwg.

(2) Sicrhau bod y Cyngor yn asesu ei berfformiad yn effeithiol yn unol â'r gofyniad i fodloni ei ofynion perfformiad, fel yr amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, ac yn adlewyrchu gofyniad Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) Deddf 2015 yn yr ystyr ei bod wedi gwneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni nodau llesiant Cymru.

(3) Er mwyn gallu darparu adroddiad i gyfarfod yn y dyfodol.

953 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG / CYS 2022-2023 (CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL) / CYS (CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG) (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 22 Chwefror 2024 i'r Pwyllgor, a oedd yn crynhoi gweithgareddau'r CYSAG (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol) / CYS (Cyngor Ymgynghorol Sefydlog) fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol drafft y CYSAG / CYS ar gyfer 2022-23.

Roedd yn ofynnol i'r Awdurdod Lleol gytuno a chadarnhau Adroddiad Blynyddol CYSAG / CYS ac ar ôl ei gadarnhau roedd angen ei gyhoeddi.

Roedd y Cabinet wedi ystyried yr adroddiad yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror 2024 ac wedi cyfeirio'r adroddiad at y Pwyllgor Craffu i'w ystyried, nodwyd os na wnaeth y Pwyllgor Craffu sylwadau pellach, yr ystyriwyd bod yr Adroddiad Blynyddol wedi'i gytuno a'i gadarnhau i'w gyhoeddi.

Gofynnodd y Cadeirydd, wrth nodi bod pedair swydd wag ar Bwyllgor y CYSAG, ynghylch pa ymdrechion a oedd yn cael eu gwneud i lenwi swyddi gwag o'r fath, a dywedodd y Cyfarwyddwr Dysgu a Sgiliau y byddai'n cael gwybodaeth o'r fath ac yn e-bostio'r Aelodau yn unol â hynny.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach, roedd wedi hynny

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO Adroddiad Blynyddol CYSAG / CYS 2022-2023 sydd ynghlwm yn Atodiadau 1 a 2 i'r adroddiad.

<u>Rheswm dros yr argymhelliad</u>

Gan nad oedd unrhyw sylwadau pellach i'w hadrodd i'r Cabinet a nodwyd pe byddai'r adroddiad yn cael ei dderbyn gan y Pwyllgor Craffu byddai'n cael ei gadarnhau i'w gyhoeddi.